

Canllaw i bobl ifanc ar CEFLOGAETH...



www.newport.gov.uk

Bydd y canllaw hwn yn rhoi **cyngor**
a **gwybodaeth** ynghylch pa opsiynau
cyflogaeth sydd ar gael i chi.



NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

CANLLAW PERSON IFANC I GYFLOGAETH...

Mae cael swydd newydd yn gyffrous iawn ond a ydych yn gwybod eich hawliau pan fyddwch yn chwilio am waith neu pan fydd swydd gennych? Bydd y canllaw hwn yn esbonio beth mae angen i chi ei wybod.



Y STWFF CYFREITHIOL...

Eich contract cyflogaeth

Pa bynnag swydd rydych chi'n ei wneud, dylid rhoi contract i chi. Os byddwch yn gweithio dros 6 awr mewn diwrnod, mae'n rhaid i chi gael egwyl o 20 munud o leiaf. Fodd bynnag, nid oes rhaid i hyn fod yn seibiant â thâl.

Gallwch weithio hyd at uchafswm o 48 awr yr wythnos a dylech chi gael bwlch o 11 awr rhwng shifftiau. Hefyd mae gennych hawl i rywfaint o wyliau â thâl.

Bydd y contract y byddwch yn ei dderbyn yn rhoi gwybodaeth i chi am y canlynol:

- **Nifer yr oriau rydych yn eu gweithio bob wythnos.**
- **Y gyfradd y telir i chi (peidiwch ag anghofio bod RHAID iddo fod yn isafswm cyflog o leiaf).**
- **Faint o wyliau â thâl mae gennych hawl iddo.**
- **Y math o gontract sydd gennych - er enghraifft contract Nadolig dros dro, contract dim oriau, parhaol, amser llawn neu ran amser.**

Dull Adnabod

Bydd angen i chi wybod eich rhif Yswiriant Gwladol a manylion eich cyfrif banc pan fyddwch yn dechrau'r gwaith. Bydd angen hefyd i chi brofi pwy ydych chi - gallai hyn fod yn drwydded yrru neu ddogfen debyg sy'n dangos eich cyfeiriad.

Treth ac Yswiriant Gwladol

Os telir llai na £12,500 i chi y flwyddyn ni fyddwch yn talu treth incwm (lwfans treth personol). Ar gyfer pob £1 yr enillwch chi dros £12,500 codir treth o 20% o'ch Incwm i chi.

Os byddwch yn ennill dros £182.69 yr wythnos byddwch yn talu rhywfaint o yswiriant gwladol. Bydd y dreth hon yn mynd tuag at fudd-daliadau salwch ac iechyd ychwanegol.

Gwaith a chredyd cynhwysol

Hyd yn oed os ydych chi'n gwaith mae'n bosibl y byddwch yn gallu hawlio rhywfaint o daliadau credyd cynhwysol.



Mae'n bosibl y bydd y swm yr enillir gennych yn y gwaith yn effeithio ar gyfanswm o daliad credyd cynhwysol a gewch chi. Os bydd yn effeithio ar eich budd-daliadau, bydd y swm yn lleihau ar gyfer pob £1 rydych yn ei ennill.

Siaradwch â'ch hyfforddwr gwaith yn y ganolfan waith neu eich swyddfa cyngor ar bopeth.

Hyfforddiant

Os oes gan eich cyflogwr dros 250 o gyflogeion ac rydych chi'n gweithio yno ers dros 26 wythnos, mae'n bosibl y byddwch yn gallu gofyn am amser i ffwrdd o'r gwaith er mwyn cael hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'n bosibl mai amser i ffwrdd heb dâl fydd hyn ac mae'n bosibl y bydd rhaid i chi dalu am y cwrs.

Cymorth ychwanegol

Fel 'rhywun sy'n gadael gofal' byddwch yn gallu cael rhywfaint o gymorth gyda chyflogaeth. Bydd eich cynghorwr personol yn gallu eich cynghori ar y math o gymorth sydd ar gael.

Bydd yr hyn a gewch chi'n seiliedig ar angen a'ch sefyllfa personol ond mae'n bosibl y bydd yn cynnwys:

- **Lleoliadau gwaith â thâl i'ch helpu i baratoi at swyddi yn y dyfodol.**
- **Rhaglenni hyfforddi â thâl i'ch helpu i baratoi at swyddi yn y dyfodol.**
- **Cymorth tuag at gost dysgu neu hyfforddi yn y gwaith sy'n eich helpu i symud ymlaen yn eich gyrfa.**
- **Gwiriad GDG (os bydd angen un arall arnoch chi ar gyfer y gwaith). Mae hyn yn gofnod o euogfarnau a rhybuddion troseddol person a chaiff ei gynnal gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.**
- **Cymorth tuag at gost pasbort/trwydded yrru (y bydd ei hangen arnoch i brofi eich hawl i weithio yn y DU)**

Cymru'n Gweithio - Cymunedau am Waith

Yn darparu cymorth unigol gyda thasgau fel ysgrifennu CV, chwilio am swyddi ayyb. Hefyd yn darparu manylion am gyfleoedd hyfforddi a gall eich cyfeirio at wirfoddoli neu fentrau eraill a fydd yn hybu eich sgiliau.

I gael rhagor o gefnogaeth neu gymorth gyda gyrfaedd ffoniwch
0800 028 4844 neu e-bostio **workingwales@careerswales.gov.wales**

Hybiau Casnewydd

Mae timau Hybiau Casnewydd yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn rhoi cymorth i unigolion a theuluoedd ledled Casnewydd o bedwar hyb cymunedol.

Gallant roi cyngor a chymorth ar unrhyw un o'r canlynol:

- **chwilio am gyflogaeth**
- **mynediad at hyfforddiant**
- **cymorth i'r teulu neu gymorth tai**
- **dysgu Saesneg**
- **mynediad at TG**
- **cyfleoedd gwirfoddoli**



Gallant hefyd ddarparu hyfforddiant am ddim a chymorth mentora unigol i'ch helpu i mewn i'r gwaith neu i wella eich siawns o gael swydd.

Mae ganddynt raglenni i'ch helpu i symud ymlaen hefyd. Os ydych rhwng **16 ac 18** oed ac nad ydych mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, gallant helpu.

Gallwch gysylltu â nhw ar **08081 963482** neu e-bostio un o'r canolfannau isod.

- **Hyb Canolog - Canolfan y Mileniwm Pilgwenlli**
(ebost CentralHub@newport.gov.uk)
- **Hyb y Dwyrain - Hope Centre, Somerton,**
(ebost EastHub@newport.gov.uk)
- **Hyb y Gorllewin - Canolfan Gymunedol Maesglas**
(ebost WestHub@newport.gov.uk)
- **Hyb y Gogledd - Clwb y Gwasanaeth Sifil, Y Betws**
(ebost NorthHub@newport.gov.uk)

Clybiau Gwaith

Mae hyn yn gynllun Llywodraeth Cymru sy'n helpu pobl i fynd i mewn i'r gwaith. Galwch heibio un o ganolfannau 'Hyb' yr awdurdod lleol i gael rhagor o wybodaeth.

Gyrfa Cymru

Mae gan Gyrfa Cymru swyddfeydd yng Nghasnewydd a gallant roi cymorth ydagh ysgrifennu CVs ac awgrymiadau am gyfweliadau.

Gallwch hefyd chwilio am swyddi gwag i brentisiaid ar:


<https://ams.careerswales.com> neu www.tuneintoyourpotential.co.uk

GWASANAETH GWYBODAETH IEUENCTID...

Mae gwasanaeth gwybodaeth ieuencid Casnewydd yn cynnig gweithwyr ieuencid cymwysedig i roi gwybodaeth, cymorth ac arweiniad i bobl ifanc mewn lleoliad cyfeillgar ac anffurfiol.

Gallwch gael cymorth gyda ffurflenni cais, chwilio am waith, CVs a gwaith ysgol neu goleg.

Mae'r 'Infoshop' ar agor rhwng 11am a 4pm dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener. I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch **01633 851616** neu e-bostio **Info.shop@newport.gov.uk**



ENGAGE TO CHANGE...

Mae'r project Engage to Change bellach ar waith ledled Cymru gyfan i gynorthwyo pobl ifanc sy'n 16-25 oed ac sydd ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth i leoliadau gwaith â thâl sy'n para 6-12 mis.

I gael mwy o wybodaeth ewch i www.engagetochange.org.uk ffoniwch **01443 226664**, neu e-bostio tmoore@elitesea.co.uk

YMDDIRIEDOLAETH TYWYSOG CYMRU...

Mae'n helpu i fagu eich hyder a gall rhoi profiad gwaith hanfodol i hi a gallwch ennill sgiliau a chymwysterau Mae'r cynllun 'Get Into' o Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru yn cynnig nifer o gynlluniau a grantiau i helpu pobl ifanc i fynd i mewn i'r gwaith.

Am ragor o wybodaeth ewch i:

[www.princes-trust.org.uk/help-for-youngpeople/
get-funding-train-learn](http://www.princes-trust.org.uk/help-for-youngpeople/get-funding-train-learn)

[www.princes-trust.org.uk/help-for-young-people/
programmes#getting_a_job](http://www.princes-trust.org.uk/help-for-young-people/programmes#getting_a_job)

